## RHYBUDD o Benderfyniadau cyfarfod Hybrid Cyngor Sir Ynys Môn a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 19 Rhagfyr 2023

**Yn Bresennol**: Cynghorydd Margaret M Roberts – Cadeirydd
Cynghorydd Glyn Haynes – Is-gadeirydd

Cynghorwyr Geraint Bebb, Non Dafydd, Paul Ellis, Jeff M Evans, Neville Evans, Douglas M Fowlie, Trefor Ll Hughes MBE, Aled M Jones, Carwyn Jones, Dyfed W Jones, Gwilym O Jones, John Ifan Jones, Robert Ll Jones, Llinos Medi, Euryn Morris, Pip O'Neill, Derek Owen, Llio Angharad Owen, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Ken Taylor, Dafydd R Thomas, Alwen Watkin, Ieuan Williams, Robin Williams, Sonia Williams, Liz Wood, Arfon Wyn.

**Ymddiheuriadau**: Cynghorwyr Nicola Roberts a Jackie Lewis

**Hefyd yn Bresennol**: Neb

(2.00 o'r gloch yp - 3.15 o'r gloch yp)

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **1. Cofnodion** |
|---|---|
| PENDERFYNWYD | Cadarnhawyd fod cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir arbennig a gynhaliwyd ar 26 Hydref, 2023 yn gofnod cywir. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4. Cyflwyno Deisebau** |
|---|---|
| PENDERFYNWYD | Dim wedi eu derbyn. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5. Datganiad o'r Cyfrifon 2022/2023 a'r Adroddiad ISA 260** |
|---|---|
| PENDERFYNWYD | **PENDERFYNWYD:-**<br>• **Derbyn y Datganiad Cyfrifon 2022/23 ac awdurdodi Cadeirydd y Cyngor Sir a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 i arwyddo'r cyfrifon;**<br>• **Nodi'r cynnydd o £72k yn y tanwariant yng Nghronfa'r Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, oherwydd diwygiadau a wnaed yn ystod y cyfnod archwilio sy'n effeithio ar Gronfa'r Cyngor. Mae hyn yn cynyddu'r tanwariant am y flwyddyn o £1.212m i £1.284m.** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6. Newid yr amser a ganiateir i aelodau o'r cyhoedd siarad yn y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion** |
|---|---|
| PENDERFYNWYD | **PENDERFYNWYD:-**<br><br>• **Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/swyddog Monitro i newid y cyfeiriad ym mharagraff 4.6.21.6 o'r Cyfansoddiad o 3 munud i 5 munud (sef y cyfnod sydd ar gael i siaradwyr cyhoeddus yn y Pwyllgor Cynllunio);**<br>• **Awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio i newid y cyfeiriad yn y gwaith papur sy'n gysylltiedig â'r drefn i nodi mai 5 munud sydd ar gael i siaradwyr cyhoeddus.** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7. Cynllun Strategol Adnoddau ac Ail-gylchu - 2023-2028** |
|---|---|
| PENDERFYNWYD | **PENDERFYNWYD derbyn yr argymhelliad o welliant bod y Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu yn cael ei fabwysiadu ar gyfer 2024 – 2029 (cynllun 5 mlynedd).** |